# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar St Mary's Catholic Primary School

Dyddiad yr arolygiad: 19/01/2026

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ysgol hapus, ofalgar ac anogol lle mae pob aelod o staff yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac yn creu amgylchedd dysgu hynod effeithiol. Maent yn meithrin perthnasoedd gwaith parchus â disgyblion, a gyda'i gilydd, ac mae disgyblion yn datblygu agweddau rhagorol tuag at eu dysgu. Mae gan arweinwyr a staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac maent yn gwrtais ac yn gefnogol i'w gilydd. Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf. Er bod yr ysgol yn gweithio'n drwyadl i wella presenoldeb, at ei gilydd, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn mynychu'r ysgol yn ddigon rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn datblygu perthnasoedd cryf ag aelodau o'i chymuned. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r ethos gofalgar ac anogol a'r profiadau dysgu difyr a ddarperir gan yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol, bywyd go iawn sy'n dal dychymyg disgyblion, yn ennyn eu diddordeb mewn dysgu ac yn helpu datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu dysgu. Fodd bynnag, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac yn defnyddio taflenni tasgau wedi'u llungopïo i ddisgyblion eu cwblhau yn rhy aml. Yn yr achosion hyn, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digonol i gynllunio'u hymatebion i ddysgu, yn cynnwys gwneud penderfyniadau am sut byddant yn gweithio, neu fynegi a chyflwyno'u dysgu. Mae cynorthwywyr addysgu yn diwallu anghenion dysgu a lles unigol disgyblion yn hynod fedrus. Maent yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol i wneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Mae llywodraethwyr yn chwarae rôl weithgar ym mywyd yr ysgol ac yn gwneud cyfraniad cryf at y broses hunanwerthuso. Ar y cyd ag arweinwyr, mae ganddynt ffocws craff ar nodi a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn dda. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn blaenoriaethu cynnydd disgyblion yn gywir wrth werthuso gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr wedi datblygu dull hynod lwyddiannus o werthuso cynnydd disgyblion, y maent yn ei ddefnyddio'n effeithiol ar gyfer gwella'r ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella presenoldeb, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

A2 Rhoi mwy o ddewis i ddisgyblion o ran sut maent yn mynegi ac yn cyflwyno'u dysgu.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026